### Trafod Codi'r Groes Heddiw

Ma' Iesu'n dweud bod rhaid i ni 'godi ein croes bob dydd' i'w ddilyn e. Ydy, mae ffydd person yn newid ac yn datblygu. Nid yw Duw yn newid, ond mae'n gadael i ni ddysgu o'n camgymeriadau ni. Y'n ni'n gallu neud mess o bethe – fel gwnaeth y brenin Dafydd a Jona. Ond ma' Duw yn dal yma. Dyma neges yr Efengyl. Pan o'n i'n 20 oed, o'n i'n meddwl bo fi'n gwybod popeth, ond erbyn hyn dwi'n gweld cyn lleied dwi'n gwybod.

Ma' perygl bod ni'n 'troi pobol bant' wrth ddefnyddio termau Cristnogol fel 'ein golchi yng ngwaed yr Oen'. Y'n ni'n gyfarwydd â syniadau fel 'na, ond ma' pobl eraill yn ei weld e'n od iawn. Fi'n trial siarad â phobol mewn iaith bob dydd – iaith ma' nhw'n ddeall, iaith plaen a gonest. Ma' rhai pobol wedi dod lan ata'i ar ddiwedd noson a dweud: 'Os bydde capel fel 'na, bydden i'n dod'. Rwy'n teimlo mod i wedi cael galwad, ac wedi ateb yr alwad yn fy ffordd i: sef defnyddio'r anrheg ma' Duw wedi rhoi i fi – y canu.

***Nia Price***

### Diolch

Diolchaf am dy gariad cu
    Yn estyn hyd fy oes;
Diolchaf fwy am Un a fu
    Yn gwaedu ar y Groes.

***David Charles***